Cyllid & Tollau EF

# Hawlio rhyddhad – colled ar werthu tir

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon os hoffech hawlio rhyddhad ar dir neu adeiladau a oedd yn rhan o ystâd yr ymadawedig ac wedi'u gwerthu ar golled.
I fod yn gymhwysol i gael rhyddhad, mae'n rhaid bod y gwerthiant wedi bod o fewn 4 blynedd i'r dyddiad marwolaeth a bod yr hawliad wedi'i gyflwyno o fewn 7 mlynedd i'r dyddiad marwolaeth. Efallai y bydd y cyfnod hwn yn cael ei ymestyn os oeddech wedi gwerthu i awdurdod sydd â phwerau prynu gorfodol.

## Help

Darllenwch y nodiadau isod cyn llenwi'r ffurflen hon.

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth, neu i gael copi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i www.gov.uk/topic/personal-tax/inheritance-tax
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900
- os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, deialwch +44 300 200 1900

**Eich hawliau a'ch ymrwymiadau**

Mae 'Siarter CThEF' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

Cyfenw'r ymadawedig

Enwau cyntaf yr ymadawedig

Dyddiad y farwolaeth DD MM BBBB

Cyfeirnod Treth Etifeddiant

## I ble y dylech anfon y ffurflen?

Anfonwch y ffurflen gyflawn i:
Treth Etifeddiant
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

## Pwy ddylai Cyllid a Thollau EF (CThEF) gysylltu â nhw ynglŷn â'r hawliad hwn?

Enw a chyfeiriad

Cod post

Eich cyfeirnod

Eich rhif ffôn

## Hawlio rhyddhad

### Nodiadau

1 Dim ond os chi yw'r 'unigolion priodol' y dylech wneud hawliad am y rhyddhad. Yr 'unigolion priodol' yw'r rheini sy'n agored i'r Dreth Etifeddiant sy'n cael ei chodi ar werth y tir ac adeiladau. Er enghraifft, yr ysgutorion, y gweinyddwyr, yr ymddiriedolwyr neu'r rhoddeion. Os oes mwy nag un grŵp yn agored i'r dreth, yr 'unigolion priodol' yw'r rheini sy'n ei thalu. Rhowch wybod i ni ym mha gapasiti yr ydych yn llenwi'r ffurflen hon. Mae'n rhaid i bob unigolyn priodol lofnodi'r ffurflen hon.

Ni allwn dderbyn hawliad wedi'i lofnodi gan asiantau.

Ni allwch hawlio rhyddhad os nad oes Treth Etifeddiant yn ddyledus ar adeg cyflawni'r cyfrif ar gyfer y Dreth Etifeddiant. Os nad oes unrhyw dreth wedi'i thalu, nid oes modd cael unigolyn priodol i wneud hawliad.

2 Nodwch bob buddiant mewn tir neu adeiladau rydych wedi'i werthu fel unigolyn priodol yn ystod y cyfnod o 4 blynedd (darllenwch Nodyn 1 uchod).

3 Rydym yn argymell eich bod yn aros nes bo'r holl eitemau sydd angen eu gwerthu, wedi'u gwerthu, cyn hawlio. Ni allwch dynnu hawliad am ryddhad yn ôl os yw'n rhoi anfantais i chi. Noder - nid oes unrhyw ostyngiad ar eiddo mewn perchnogaeth ar y cyd ar adeg y farwolaeth yn berthnasol i'r gyfran o'r enillion sy'n deillio o'r gwerthiant, a allai arwain at hawliad anfanteisiol.

4 Efallai y bydd modd i chi hawlio rhyddhad dros dro o fewn 4 mis i'r gwerthiant cymhwysol diwethaf, hyd nes y byddwch yn bwriadu prynu buddiant mewn tir yn ystod y 4 mis hwnnw. Os byddwn yn rhoi rhyddhad dros dro, efallai byddwn yn adolygu hyn yn nes ymlaen.

5 Fel arfer, dyddiad gwerthiant neu bryniant yw'r dyddiad y byddwch yn cyfnewid contractau neu, yn yr Alban, pan fyddwch yn cytuno ar delerau'r cynnig a'r cytundeb cymhwysol yn ysgrifenedig.

6 Mae'r rhyddhad ar sail pris gwerthu gros, ond mae wedi'i gyfyngu gan bris net unrhyw bryniant. Peidiwch â didynnu treuliau sy'n ymwneud â gwerthiant neu bryniant (er enghraifft, comisiwn, Tollau Stamp, ffioedd cyfreithiol). Fel arfer, y pris gwerthu gros a fydd y pris gwerthu y cytunwyd arno yn y contract gwerthu.

7 Ni allwch hawlio rhyddhad os yw pris gwerthu yn wahanol i'r gwerth ar adeg y farwolaeth, a hynny gan lai na £1,000 neu 5% o'r gwerth ar adeg y farwolaeth, p'un bynnag sydd is.

8 Efallai na fydd modd i chi hawlio rhyddhad ar werthiant i fuddiolwr neu aelod o deulu'r buddiolwr. Mae'n bosibl y bydd unrhyw elw o werthiant neu gyfnewid o'r fath yn gostwng y rhyddhad ar werthiant cymhwysol.

9 Os bydd rhywun yn prynu tir rhwng dyddiad y farwolaeth a 4 mis ar ôl y gwerthiant cymhwysol (darllenwch 'Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon'), efallai y bydd y rhyddhad yn cael ei gyfyngu.

10 Mae rheolau arbennig yn berthnasol i brydles neu fuddiant mewn prydles sydd â llai na 50 mlynedd i fynd cyn dyddiad y farwolaeth. Dangoswch faint o'r cyfnod hwn nad yw wedi dod i ben ar adeg y farwolaeth ym mlwch 1.

11 Os byddwch yn gwneud hawliad ar ôl i'r buddiant mewn tir gael ei ddosbarthu o'r ystâd, efallai na fydd rhyddhad ar gael.

12 I'n helpu gyda phrosesu eich hawliad yn gyflym, dylech gynnwys Datganiad Cwblhau llawn am bob eiddo rydych yn hawlio ar ei gyfer.

## Tir ac adeiladau sydd wedi'u gwerthu

1 **Rhowch fanylion i ni am yr holl dir ac adeiladau a gafodd eu gwerthu o fewn y 4 blynedd yn dilyn y farwolaeth yn y blwch isod. Dylech wneud hyn, p'un a oeddech wedi'u gwerthu am fwy neu lai na'r gwerth ar ddyddiad y farwolaeth.**
Os oes angen rhagor o le arnoch, yna copïwch y dudalen hon.

| Cyfeiriad yr eiddo a'r ddeiliadaeth, neu ddisgrifiad o'r rhain (darllenwch Nodyn 10) | Gwerth ar ddyddiad y farwolaeth £ | Dyddiad y gwerthiant (darllenwch Nodyn 5) | Enillion gros o'r gwerthiant (darllenwch Nodyn 6) £ | Enw pob prynwr |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Cyfanswm | £ 0.00 | Cyfanswm | £ 0.00 | |

## Ynglŷn â'r tir ac adeiladau

Am bob cwestiwn, rhowch 'X' yn y blwch 'Iawn' neu 'Na', yn dibynnu ar yr hyn sy'n berthnasol i chi. Os ydych wedi ateb 'Iawn', nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y gwagle sydd ar gael yn dilyn pob cwestiwn. Os oes angen rhagor o le arnoch, parhewch ar ddalen ar wahân gan ddangos yn glir at ba gwestiwn y mae'n cyfeirio.

2 **A oedd unrhyw fuddiant llesiannol, gan naill ai'r prynwr neu unrhyw berthynas i'r prynwr, mewn unrhyw eiddo sydd wedi'i werthu rhwng dyddiad marwolaeth yr ymadawedig a'r gwerthiant?** Rhowch 'X' mewn un blwch

Na ☐ Iawn ☐ Os ydych wedi ateb 'Iawn', nodwch y manylion isod.

3 **A oedd unrhyw brisiau gwerthu yn llai na'r pris gorau y gallech fod wedi'i gael yn rhesymol ar ddyddiad y gwerthiant?**

Na ☐ Iawn ☐

Os ydych yn ateb 'Iawn', esboniwch pam roeddech wedi derbyn pris llai a nodwch y pris gorau y gallech fod wedi'i gael yn rhesymol.

4 **A ydych yn bwriadu gwerthu unrhyw ragor o dir yn ystod y 4 blynedd yn dilyn y farwolaeth?**

Na ☐ Iawn ☐ Os ydych wedi ateb 'Iawn', nodwch y manylion isod.

5 **A oeddech wedi prynu unrhyw fuddiannau mewn tir neu adeiladau, fel unigolyn priodol, rhwng dyddiad y farwolaeth a'r 4 mis yn dilyn y gwerthiant diwethaf?**

Na ☐ Iawn ☐ Os ydych wedi ateb 'Iawn', nodwch y manylion isod.

Noder: ni allwch hawlio rhyddhad os yw llai na 4 mis wedi mynd heibio ers dyddiad y gwerthiant diwethaf, a'ch bod yn bwriadu prynu unrhyw fuddiant mewn tir yn yr un capasiti o fewn y 4 mis hwnnw (darllenwch Nodyn 4 ar dudalen 1).

6 **A oedd unrhyw beth yn wahanol am unrhyw un o'r tiroedd ac adeiladau ar ddyddiad y gwerthiant a dyddiad y farwolaeth? Er enghraifft, efallai roedd prydles neu hawl ffordd wedi'i chaniatáu, neu efallai roedd difrod strwythurol wedi codi.** Rhowch 'X' mewn un blwch

Na ☐ Iawn ☐ Os ydych wedi ateb 'Iawn', nodwch y manylion isod.

7 **A oes unrhyw iawndal statudol wedi dod yn daladwy i unrhyw berson ers y farwolaeth, a hynny am unrhyw dir neu adeiladau sy'n ymwneud â'r hawliad hwn?**

Na ☐ Iawn ☐ Os ydych wedi ateb 'Iawn', nodwch y manylion isod.

8 **A yw'r gwerthwyr neu berthnasau'r gwerthwyr wedi cael hawl i ailbrynu unrhyw hen eiddo?**

Na ☐ Iawn ☐ Os ydych wedi ateb 'Iawn', nodwch y manylion isod.

9 **A oes unrhyw beth wedi dod i law ers y farwolaeth o dan unrhyw hawliad yswiriant sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir neu adeiladau?**

Na ☐ Iawn ☐ Os ydych wedi ateb 'Iawn', nodwch y manylion isod.

**Pwysig**
Os ydych wedi ateb 'Iawn', ewch i gwestiynau 2 i 9. Efallai y bydd rhyddhad yn ddyledus, efallai y bydd wedi'i gyfyngu.

## Awdurdod i ad-dalu

Os bydd angen i ni ad-dalu unrhyw Dreth Etifeddiant sydd wedi'i gordalu, byddwn yn gwneud taliadau'n uniongyrchol i gyfrif banc cwsmer gan ddefnyddio Taliadau Cyflymach. Bydd y taliad yn cael ei nodi ar y gyfriflen fanc gan ddefnyddio'r cyfeirnod Treth Etifeddiant. Nodwch fanylion y cyfrif isod.

Enw ar y cyfrif

Cod didoli

Rhif y cyfrif

## Datganiad gan yr unigolion priodol

Darllenwch Nodyn 1 ar dudalen 1. Ni fydd modd i ni ddelio â'ch hawliad oni bai eich bod yn rhoi 'X' yn un o'r ddau flwch isod.

Hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred, mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon ac unrhyw atodlenni neu gopïau o dudalen 2 yn wir ac yn gyflawn. Rhowch 'X' naill ai ym mlwch 1 neu flwch 2, yn dibynnu ar yr hyn sy'n berthnasol i chi.

1 1 Ni fyddaf yn gwerthu nac yn cyfnewid buddiannau pellach mewn tir yn ystod y 4 blynedd yn dilyn dyddiad y farwolaeth yn fy nghapasiti fel unigolyn priodol,

a/neu

Ni fyddaf yn prynu unrhyw fuddiannau mewn tir yn ystod y 4 mis yn dilyn dyddiad y gwerthiant diwethaf yn yr hawliad hwn, a hynny yn fy nghapasiti fel unigolyn priodol.

2 Os ydych yn bwriadu gwerthu, cyfnewid neu brynu unrhyw beth pellach,

Rwyf yn deall y bydd y rhyddhad sydd wedi'i ganiatáu yn un dros dro a byddaf yn rhoi manylion am unrhyw werthiannau neu gyfnewidfeydd pellach, yn ogystal ag unrhyw bryniannau byddaf yn eu gwneud i CThEF.

Deallaf nad oes modd anfon cliriad hyd nes y bydd y rhyddhad yn derfynol.

**Enw**

**Capasiti** er enghraifft, ysgutor, trosglwyddai, ymddiriedolwr

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

**Enw**

**Capasiti** er enghraifft, ysgutor, trosglwyddai, ymddiriedolwr

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

**Enw**

**Capasiti** er enghraifft, ysgutor, trosglwyddai, ymddiriedolwr

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

**Enw**

**Capasiti** er enghraifft, ysgutor, trosglwyddai, ymddiriedolwr

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB